

Luc

Oed:
5-7

Geni Iesu

Stori o'r Beibl
Luc 2:8-20

Neges y stori
Gallwn rannu cyffro geni Iesu

Gweithgaredd

Cardiau naid bugeiliaid

Gwnewch gardiau naid i rannu'r cyffro am eni'r Iesu.

• Bydd angen

Dalennau o bapur gwyn A4, pensiliau, siswrn, creonau neu binnau ffelt.

• Paratoi

Plygwch ddarn o bapur yn ei hanner. Yng nghanol y papur, o'r plygiad am allan, tynnwch lun ddwy linell fertigol, 5cm o hyd a 2.5cm ar wahân. Ailadroddwch nes bod gennych un papur yn barod ar gyfer bob plentyn.

• Awgrym cynnil

Darparwch amlenni aur mawr ar gyfer rhoi'r cardiau ynddyn nhw. Trefnwch i ddsbarthu'r cardiau, fel grŵp, i blant eraill neu i bobl yn y gymuned.

• Cam-wrth-gam

1. Defnyddiwch y siswrn i dorri holltau ar hyd y ddwy linell ar y papur. Agorwch y papur, gwrthiwch y darn canol i'r cyfeiriad arall fel ei fod y tu mewn i'r cerdyn, yna crychwch y llinell blyg. Hwn fydd rhan 'naid' y cerdyn.
2. Cymerwch ddarn arall o bapur a'i blygu yn ei hanner. Gludwch y papur 'naid' tu mewn i'r darn cyfan arall o bapur.
3. Gyda phlygiad y papur ar y top neu ar yr ochr chwith, addurnwch ochr allanol y papur.
4. Agorwch y papur. Tynnwch lun ffigwr bugail (tua maint eich bys) ar ddarn arall o bapur a'i dorri allan. Gludwch gefn eich bugail ar ddarn 'naid' y papur.

5. 'Sgwennwch neges gyffrous i'ch bugail gael ei rannu.



Neges y wers

Cesglwch bawb ynghyd mewn cylch. Esboniwch eu bod newydd gwblhau cardiau i rannu'r cyffro am enedigaeth Iesu gydag eraill. Pan anwyd Iesu, y bugeiliaid oedd y rhai cyntaf i rannu'r newyddion da. Gofynnwch i'r plant actio ymateb y bugeiliaid, yn gorfforol ac yn emosiynol wrth i chi ddarllen Luc 2:8-20. Yna gofynnwch:

- Sut fath o deimladau, tybed, oedd gan y bugeiliaid wrth weld y baban Iesu, yn union fel y dywedodd yr angel wrthyn nhw?
- Pam ddywedodd y bugeiliaid wrth bawb am yr hyn a welon nhw?
- Sut ydyn ni'n rhannu newyddion da gyda phobl eraill?

Gorffennwch trwy sôn fod y bugeiliaid, wedi iddyn nhw weld a chlywed cyhoeddiad yr angel, yn gwybod mai Iesu oedd y Meseia a addawyd – Mab Duw, yr un yr oedd pawb wedi bod yn aros amdano. Rydyn ni'n gwybod mwy fyth am Iesu na'r bugeiliaid gan fod y Beibl gennym. Rydyn ni'n gwybod fod Iesu wedi dod i baratoi'r ffordd i ni gael bod yn ffrindiau gyda Duw er mwyn i ni gael byw gydag Ef am byth. Fel y bugeiliaid, gallwn ninnau rannu llawenydd a chyffro geni'r Iesu.